

Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid

Cynnwys

Adran 1: Cyflwyniad	3
Adran 2: Egwyddorion y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid	4
Adran 3: Proses y Cynllun	6
3.1 Hysbysu cleientiaid	6
3.2 Holiadur cyn yr asesiad	6
3.3 Samplo ffeiliau	6
3.4 Diffiniadau o waith achos: cyngor yn unig	8
3.5 Cyflwyno ffeiliau achos	8
3.6 Proses sgorio	9
Adran 4: Adroddiad Adolygiad gan Gymheiriaid	10
Adran 5: Yn dilyn yr Adolygiad gan Gymheiriaid	12
Adran 6: Dysgu a datblygu	14
Adran 7: Cylch Adolygiad gan Gymheiriaid	15
Atodiadau	16
Atodiad A: Meini prawf adolygiad achos - gwaith achos yn unig	17
Atodiad B: Templed adroddiad adolygiad achos - gwaith achos yn unig	26
Atodiad C: Manyleb person adolygydd cymheiriaid	27

Adran 1: Cyflwyniad

Mae gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol gyfrifoldeb statudol am wella ansawdd cyngor ynghylch dyled ar draws y Deyrnas Unedig, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gleientiaid sy'n derbyn cyngor ynghylch dyled.

Rydym yn y broses o weithredu fframwaith fydd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau sy'n darparu cyngor, a'r cynghorwyr unigol eu hunain, i gydymffurfio gyda set o safonau ansawdd gydag achrediad. Rhan nesaf ein rhaglen yw cynllun adolygiad gan gymheiriaid, sy'n rhoi dull i gynghorwyr dyled arbenigol asesu ansawdd y cyngor a ddarperir gan eu cymheiriaid. Lluniwyd y cynllun gyda mewnbwn gan ystod o sefydliadau ar draws y sector cyngor ynghylch dyled. Mae'r ddogfen yma'n nodi sut y bydd y cynllun, a fydd yn dechrau yn ystod Gwanwyn 2015, yn gweithio.

Dan y Cynllun, bydd adolygwyr cymheiriaid yn asesu ffeiliau cleientiaid ac yn barnu pa mor dda y cafodd y cleientiaid hynny eu cynghori. Byddant yn dynodi meysydd lle gallai'r sefydliadau hynny a adolygir, a'r cynghorwyr o'u mewn, ddatblygu a byddant yn eu cefnogi wrth edrych ar gamau gweithredu sydd eu hangen i wneud y newidiadau. Bydd y cynllun hefyd yn amlygu meysydd o arfer da ac arfer gorau ac yn eu rhannu ar draws y sector.

Rydym wrthi'n comisiynu sefydliad i weinyddu'r Cynllun (a elwir yn y ddogfen yma yn "Weinyddydd y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid") fydd yn recriwtio cronfa o aseswyr i gynnal yr adolygiadau gan gymheiriaid.

Caiff y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid ei ymestyn i ddechrau i sefydliadau sy'n derbyn cyllid gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol yng Nghymru a Lloegr, a chaiff ei ymestyn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon fel y cytunir ar drefniadau ariannu newydd. Wrth i'r cytundebau ariannu newydd hyn gael eu sefydlu, byddwn yn adolygu prosesau'r cynllun i adlewyrchu'r tirlun lleol ac ategu unrhyw gynlluniau newydd neu bresennol ar gyfer adolygiad gan gymheiriaid sydd ar waith.

Ein nod yw cynyddu ansawdd ar draws yr holl sector, nid dim ond y prosiectau hynny y mae'r Gwasanaeth yn eu hariannu. Dymunir felly ymestyn y cynllun i sefydliadau na chaiff eu hariannu gan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol, sydd â safon ag achrediad, ac i gysylltu gyda safonau ansawdd a chodau aelodaeth gydag achrediad, yn y sector am ddim i'r cleient a hefyd y sector codi ffi. Byddwn yn siarad gyda chyllidwyr a pherchnogion safonau eraill sy'n gweithredu cynlluniau tebyg er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu tra'n dal i gadw cysondeb ar draws y sector. Defnyddir dadansoddiad yn dilyn yr adolygiadau i ddynodi tueddiadau, heriau cyffredin ac amlygu unrhyw feysydd i'r sector hyfforddiant a chymwysterau eu hystyried.

Cyn ehangu'r cynllun i sefydliadau gydag achrediad nad ydynt yn cael eu hariannu gan y Gwasanaeth, y rhagwelir y bydd yn dechrau yn ystod 2016/17, byddwn yn cysylltu gyda phob un o'r darparwyr ffôn cenedlaethol sydd â safon ansawdd achrediad y Gwasanaeth Cynghori Ariannol er mwyn gwahodd mewnbwn i unrhyw amrywiad yn y broses y gall fod ei angen i gynyddu effeithlonrwydd y cynllun i'r eithaf.

Disgwyliwn i'r Cynllun yma, ynghyd â'r fframweithiau ansawdd ar gyfer sefydliadau ac unigolion, i godi ansawdd darpariaeth cyngor ar draws y sector. Bydd hyn yn rhoi buddion hirdymor i gynghorwyr unigol, sefydliadau cynghori ac yn bwysicaf oll i bobl gyda gormod o ddyled sy'n cyrchu gwasanaethau cynghori.

Dogfen yn cyd-fynd â'r cynllun yma:

- Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i'r Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Adran 2: Egwyddorion y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid

Mae Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid y Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn cynnwys yr egwyddorion dilynol:

- Mae'n asesu ansawdd ac effeithlonrwydd y cyngor ynghylch dyled a'r camau gweithredu a gymerwyd ar ran cleientiaid;
- Mae'n asesu ar draws ystod o fathau o ddyledion a strategaethau ar ddyledion;
- Mae'n asesu prosesau yn cynnwys dangos y ffordd/atgyfeirio, cofnodi achosion a thrin achosion a'r defnydd priodol o hunangymorth (gan roi ystyriaeth i natur y gwasanaeth a gynigir gan y darparwydd cyngor) yn ogystal â chyngor ynghylch dyled a roddir ac unrhyw gymorth arall a roddwyd neu a gynigiwyd;
- Fe'i cynlluniwyd fel offeryn datblygu ar gyfer sefydliadau cyngor ynghylch dyled;
- Mae'n galluogi rhannu arfer gorau drwy adolygu ffeiliau cynghorwyr unigol a dynodi tueddiadau ac enghreifftiau o arfer da;
- Mae'n galluogi sefydliadau cyngor ynghylch dyled i ddangos y gall eu cynghorwyr gyflawni meini prawf y Cynllun drwy asesiad o bell o gofnod/ffeil yr achos ar ben ei hun;
- Mae'n gynllun tryloyw, yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad clir i gynghorwyr ac adolygwyr;
- Mae'n rhoi ystyriaeth i Fframwaith Ansawdd y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ar gyfer Unigolion a'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol drwy eu cynnwys yn y templed(i) adolygu achos fel sy'n briodol.

Fe'i cynlluniwyd i hyrwyddo gwelliant parhaus o'r tu mewn i'r sector cyngori yn unol â'n rôl statudol i weithio gyda phartneriaid i wella ansawdd a chysondeb cyngor ynghylch dyled. Nod y gwaith hwn yw gwella ansawdd y cyngor a ddarperir uwchben y safonau sylfaenol a nodir yn rheolau'r FCA a bydd yn ategu'r dull seiliedig ar risg at oruchwyliaeth a gymerir gan yr FCA.

Beth fydd yr Adolygiad gan Gymheiriaid yn ei asesu?

Dan y broses adolygu gan gymheiriaid, bydd cyfranogwyr yn casglu tystiolaeth drwy asesiad o bell o'r cofnodion achos a gynhwysir yn ffeiliau caeedig cleientiaid dyledion gwaith achos a 'chyingor yn unig' (mewn geiriau eraill, achosion lle nad yw'r cynghorydd yn eirioli ar ran na'n cynrychioli cleientiaid, ond yn rhoi cyngor yn unig - rhoddir diffiniadau llawn o achosion 'gwaith achos' a 'chyingor yn unig' ar dudalen 7). Caiff ffeiliau eu hasesu ar y meini prawf a amlinellir yn y ffurflen adolygiad achos yn Atodiad A cyn rhoi sgôr i ffeiliau a sefydliadau. Defnyddir fersiwn fyrrach o'r ffurflen adolygiad achos ar gyfer ffeiliau 'cyngor yn unig' (mae'r ffurflen adolygu achos 'cyngor yn unig' ar gael yng Nghynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol.

Bydd dangosyddion cyngor 'da' a asesir yn ystod pob adolygiad yn cynnwys:

- A yw'r cyngor yn iawn ac yn gyfreithiol gywir?
- A yw'r cyngor yn addas ar gyfer amgylchiadau unigol y cleient?
- A yw'r cyngor yn gynhwysfawr ac a yw'n delio gyda materion eraill cysylltiedig, tu hwnt i'r mater a gyflwynwyd gan y cleient?
- A roddir y cyngor ar amser/ar yr amser cywir?
- A ddefnyddir y tactegau a strategaethau i sicrhau'r canlyniadau gorau i gleientiaid?
- A gaiff unrhyw waith pellach ei wneud mewn modd priodol, ei wneud yn effeithiol, ac a yw'n effeithlon wrth weithio tuag at yr hyn yr oedd y cleient yn rhesymol ei eisiau/angen?

Rhoddir ystyriaeth i bob dangosydd yn ystod yr asesiad ond i'r ffeil yn ei chyfanrwydd y rhoddir y sgôr. Ni chaiff y meini prawf eu pwysoli a bydd y sgorio yn rhoi ystyriaeth i unrhyw faterion a gollwyd ac unrhyw niwed posibl i gleientiaid. Er enghraifft, ni roddir sgôr cadarnhaol i gyngor sy'n gywir yn gyfreithiol ac yn gynhwysfawr ond heb fod yn amserol na'n addas i'r cleient.

Prif nod y cynllun yw cefnogi a hwyluso datblygiad y sector ac adolygu'r holl gyngor ynghylch dyled a roddwyd yn hytrach nag unrhyw un ffrwd cyllid. Ar gyfer sefydliadau a ariannwyd drwy'r Gwasanaeth, bydd y Cynllun felly'n gwahodd anfon ffeiliau cleientiaid a gynghorwyd drwy gyllid y Llywodraeth a hefyd bob cleient sy'n derbyn cyngor ynghylch dyled gan y sefydliad hwnnw. Bydd hyn yn galluogi'r cynllun i ganolbwyntio ar gefnogi datblygiad yr holl wasanaeth cyngor ynghylch dyled ac yn hwyluso gwella gwasanaethau ar gyfer pob cleient.

Adran 3: Proses y Cynllun

3.1 Hysbysu cleientiaid

Dylid hysbysu pob cleient sy'n cyrchu cyngor ynghylch dyled, beth bynnag yw ffynhonnell cyllid y cyngor hwnnw, pan fyddant yn dechrau derbyn cyngor y gall eu cofnodion gael eu defnyddio ar gyfer monitro ansawdd, yn cynnwys adolygiad gan gymheiriaid ac archwiliadau allanol ar sicrwydd ansawdd e.e. pan mae'r sefydliad sy'n darparu'r cyngor yn adnewyddu neu'n gwneud cais am safonau ansawdd. Os bydd hyn yn digwydd, dylid ei gwneud yn glir y caiff eu gwybodaeth bersonol ei thrin yn gyfrinachol ac na chaiff ei rhannu ar gyfer unrhyw ddiben arall. Os yw cleient yn hysbysu'r sefydliad na ddymunant i'w gwybodaeth gael ei rhannu, caiff eu ffeiliau eu heithrio o'r asesiad adolygiad gan gymheiriaid.

Disgwylir i adolygwyr cymheiriaid lofnodi a gweithio i god ymddygiad y Cynllun, yn cynnwys cyfrinachedd gwybodaeth am gleientiaid, ac ansawdd gwaith unrhyw sefydliad neu gynghorydd unigol.

3.2 Holiadur cyn yr asesiad

Er mwyn rhoi'r data mae adolygwyr cymheiriaid ei angen i ddethol eu sampl, ac i roi'r holl wybodaeth berthnasol i gynnal yr asesiad, anfonir holiadur sefydliad at bob sefydliad sy'n cymryd rhan i'w lenwi cyn yr adolygiad gan gymheiriaid, gan ofyn y manylion canlynol o'u proffil cyngor gan sefydliad:

- Nifer y cynghorwyr a'r gyfran o allbwn gwaith pob cynghorydd ar gyngor ynghylch dyled;
- Rhestr(i) o ffeiliau (a) gwaith achos a (b) 'cyngor yn unig' fesul cynghorydd a enwyd yn y 12 mis blaenorol;
- Manylion a pholisïau os oes cyfyngiad ar gwmpas y gwaith cyngor ynghylch dyled o fewn ffrydiau cyllid;
- P'un a yw'r sefydliad yn gwneud gwaith cynrychioli ac, os felly, restr o ffeiliau caeedig yn ymwneud â chynrychiolaeth;
- Cyfran achosion sy'n rhai cyngor yn unig;
- Copïau o unrhyw lythyrau safonol a ddefnyddiwyd a manylion unrhyw gyngor safonol a roddir fel arfer ond na chafodd ei gynnwys yn y ffeil (mae hyn yn fesur dros dro tra caiff sefydliadau eu hannog i ddefnyddio arfer gorau o gofnodi achos llawn);
- Sgrin luniau o unrhyw fwydlenni tynnu-lawr a ddefnyddiwyd;
- Cofnod(ion) achos blaenorol ar gyfer unrhyw gleientiaid sy'n dychwelyd (lle'n berthnasol);
- Unrhyw godau, geirfa neu fyrfoddau a ddefnyddir gan y sefydliad penodol.

Hysbysir sefydliadau am enw eu hadolygydd cymheiriaid cyn anfon ffeiliau i gael eu hasesu. Ar y pwynt hwn gall y sefydliad a asesir godi unrhyw fater o gonsyrn neu wrthdaro posibl mewn diddordeb gyda Gweinyddydd y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid a gofyn am neilltuo asesydd newydd.

3.3 Samplu ffeiliau

Bydd yr egwyddorion canlynol yn weithredol ar gyfer dethol ffeiliau adolygiad gan gymheiriaid:

- Rhaid i'r sampl gael ei ddethol ar hap;
- Rhaid i'r holl ffeiliau fod wedi eu cau o fewn y 12 mis blaenorol, gydag eithriad achosion 'cyngor yn unig' lle daw'r sampl o ffeiliau lle na fu unrhyw gyswllt gyda'r cleient o fewn y chwe mis blaenorol;
- Mae'n rhaid i'r sampl gynnwys enghreifftiau o waith achos a hefyd achosion cyngor yn unig lle'n briodol;
- Caiff y sampl ei dynnu o bob cynghorydd, yn gymesur i'r gyfran o waith cyffredinol ar gyngor ynghylch dyled a wnânt ar gyfer y sefydliad.

Sampl cyfaint

Bydd y Cynllun yn defnyddio'r dull canlynol o samplu ffeiliau:

- Y sampl sylfaenol a ddewisir bydd 20 o ffeiliau, yn cael eu cymryd ar hap o restr o waith achos wedi cau a ffeiliau 'cyngor yn unig' (lle nad oes cysylltiad wedi bod gyda'r cleient o fewn chwe mis). Bydd cofnod(ion) achos blaenorol hefyd yn cael eu cyflwyno ar gyfer ffeiliau cysylltiedig neu pan fo cleient yn dychwelyd am gyngor. Bydd pymtheg ffeil o'r sampl yn cael eu dewis ar hap er mwyn eu hasesu.
- Gellir gofyn am ffeiliau ychwanegol pe bai yna wall yn y sampl a ddarparwyd; os nad yw'r ffeil yn achos sy'n gysylltiedig â dyled, er enghraifft.
- Os oes gan sefydliad mwy na 15 o gynghorwyr, bydd y sampl yn cael ei gynyddu i gynnwys o leiaf un ffeil oddi wrth bob cynghorydd.
- Bydd angen i'r sefydliad baratoi rhestr o ffeiliau caeedig fesul cynghorydd a enwyd o fewn y 12 mis blaenorol y gellir gwneud detholiad ohonynt yn seiliedig ar gyfran y gwaith a wnânt. Yn ychwanegol, lle mae'r sefydliad yn gwneud gwaith cynrychiolaeth, rhaid cynnwys hyn yn y sampl a ddetholwyd a dylid medru ei dynodi o'r rhestri a baratoir.

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, caiff y dull ar gyfer gwasanaethau ffôn cenedlaethol ei ddatblygu mewn trafodaeth gyda'r darparwyr hyn cyn ehangu'r cynllun.

3.4 Diffiniadau o waith achos: cyngor yn unig

I alluogi sefydliadau ac adolygwyr gymheiriaid i fod yn glir pa ffeiliau y dylid eu cyflwyno ar gyfer eu dethol, y diffiniadau o 'waith achos' a 'ch yngor yn unig' a ddefnyddiwyd ar gyfer y diben yma yw:

Gwaith achos	Mae'r sefydliad cyngor yn cymryd cyfrifoldeb am gynnal achos ac mae cynghorydd yn gweithredu ar ran y cleient. Mae'r sefydliad yn gyrru ac yn rheoli'r achos, fel arfer yn datganoli cyfrifoldeb i weithiwr/weithwyr achos sydd â pherthynas barhaus gyda'r cleient. Nid oes rheol am nifer y cysylltiadau sy'n ffurfio gwaith achos. Mae negodi, eiriolaeth a chynrychiolaeth, lle'n briodol yn nodweddion cyffredin mewn gwaith achos.
Cyngor-yn-unig	Yn cynnwys diagnosis o broblem(au) y cleient, rhoi gwybodaeth ac esbonio opsiynau a helpu'r cleient i benderfynu rhwng opsiynau. Nid yw darparu gwybodaeth yn unig yn cyfrif fel cyngor. Gall cyngor gynnwys peth gweithredu megis atgyfeirio at sefydliad arall, dynodi opsiynau a'r camau nesaf, rhoi cymorth megis llenwi ffurflenni a chysylltu â thrydydd parti i gael gwybodaeth. Nid oes unrhyw reol am uchafswm nifer y cysylltiadau.

3.5 Cyflwyno ffeiliau achos

Unwaith y cafodd sampl o ffeiliau ei ddewis ar hap, gofynnir i sefydliadau gyflwyno'r ffeiliau achos a ddetholwyd o fewn 21 diwrnod calendr i'r broses adolygiad gan gymheiriaid ddechrau. Bydd Gweinyddydd y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid yn rhoi system gadarn ar waith ar gyfer trosglwyddo ffeiliau papur, a lle mae systemau rheolaeth achos yn caniatáu trosglwyddo ffeiliau yn electronig, amlinellir proses ddiogel wedi'i hamgodio ar gyfer rhannu ffeiliau i'r sefydliad a adolygir.

Lle nad yw cofnodion achos electronig yn cynnwys yr holl wybodaeth yn ymwneud â'r achos a'r meini prawf a asesir, bydd angen i sefydliadau roi tystiolaeth drwy ddulliau eraill fel rhan o'u cyflwyniad sampl e.e. sgrin luniau.

3.6 Proses sgorio

Bydd y cynllun yn cynnwys system sgorio mewn camau heb ei phwysoli. Bydd adolygwyr cymheiriaid yn asesu pob ffeil ar y meini prawf unigol a gynhwysir yn y ffurflen achos adolygiad gan gymheiriaid a bydd yn rhoi sgôr unigol i bob ffeil. Rhoddir cyfanswm ar gyfer y sampl o 15 ffeil fesul sefydliad i roi cyfanswm sgôr y sefydliad.

Yr egwyddorion a ddefnyddir ar gyfer y broses asesu a'r system storio yw y dylent fod:

- yn dryloyw;
- heb gymhlethdod;
- yn syml;
- yn rhwydd i adolygwyr cymheiriaid eu defnyddio a chynghorwyr/sefydliadau eu deall;
- yn rhoi adlewyrchiad teg o ansawdd y cyngor a ddangoswyd ym mhob achos;
- yn rhoi canlyniadau y gellir rhoi cyfiawnhad gwrthrychol drostynt;
- yn cynnwys llinellau gwahanu clir rhwng ansawdd cyngor da, digonol a gwael.

Cam 1

Yng nghanm cyntaf y sgorio ar gyfer pob ffeil bydd yr adolygydd cymheiriaid yn gwneud asesiad ar y meini prawf unigol yn y ffurflen achos adolygiad gan gymheiriaid, ac yn rhoi penderfyniad os cafodd y meini prawf eu Cyflawni, Heb eu Cyflawni (byddai hyn yn cynnwys lle na chofnodwyd unrhyw wybodaeth i alluogi'r adolygydd cymheiriaid i asesu'r meini prawf, neu lle caiff y meini prawf eu cyflawni'n rhannol) neu Dim yn Berthnasol (gweler Atodiad A).

Lle rhoddodd yr adolygydd cymheiriaid sgôr 'Heb ei Gyflawni', mae'n rhaid iddynt esbonio'r rhesymau pam yn adran 'Sylwadau' yr adroddiad - un enghraifft fyddai na chofnodwyd unrhyw wybodaeth ar y ffeil ac na ellid felly asesu'r meini prawf.

Cam 2

Yn yr ail gam mae'r adolygydd cymheiriaid yn asesu'r ffeil yn ei chyfanrwydd. Defnyddir eu harbenigedd i ystyried effaith y cyngor ar y cleient, gan roi sylw neilltuol i p'un a yw'r cyngor wedi mynd tu hwnt i'r mater a godwyd gan y cleient ai peidio, yn seiliedig ar wybodaeth a ddatgelwyd gan y cleient.

Wrth benderfynu pa sgôr i'w roi, bydd yr adolygydd cymheiriaid yn ystyried effaith unrhyw 'faterion coll' ar sefyllfa'r cleient. Lle mae cleient yn methu cymryd y camau priodol, gan efallai arwain at ganlyniad niweidiol, ni fydd hyn yn cael effaith ar y sgôr ar gyfer y ffeil.

Cafodd y categorïau sgorio ar gyfer yr asesiad cyffredinol (mewn geiriau eraill gam 1 a cham 2 gyda'i gilydd) fel sy'n dilyn:

Sgôr	Categoreiddio
0	Nid yw'r cyngor a gynigwyd wedi gwella sefyllfa'r cleient ac/neu mae wedi arwain at anfantaus wirioneddol neu botensial i sefyllfa'r cleient. Yn y cyd-destun hwn, golygai 'colled' un ai 'difrod, colled neu niwed'.
1	Cynigwyd cyngor digonol sydd wedi gwella sefyllfa'r cleient, ond ni wnaeth y cyngor hynny fynd tu hwnt i'r mater(ion) a gyflwynwyd* a/neu chafodd/cafodd mater(ion) ei golli/eu colli* Golygai 'mater coll' rhywbeth y dylid fod wedi cyngori arno. Pan fo hyn wedi cael dylanwad negyddol gwirioneddol neu botensial ar sefyllfa'r cleient, rhoddir sgôr o sero.'
2	Cynghorwyd y cleient yn gywir ac yn gyfan gwbl a gwellwyd sefyllfa'r cleient yn sylweddol, ond gellir fod wedi gwneud mwy.
3	Cynghorwyd y cleient yn gywir ac yn gynhwysfawr a gwellwyd sefyllfa'r cleient yn briodol ac yn amserol.

*Yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd gan y cleient ac a gofnodwyd

Sgôr sefydliad

Bydd sgôr y sefydliad yn cael ei gyfrifo drwy adio'r holl sgoriau unigol o'r ffeiliau achos a adolygwyd i gynhyrchu marc cyffredinol ar gyfer y sefydliad allan o fwyafswm o 45 (hynny yw, 15 o ffeiliau x mwyafswm sgôr o 3 = 45). Bydd y sgôr yma hefyd yn cael ei ddangos ar ffurf canran ar gyfer yr holl sefydliadau sy'n cael eu hasesu. Er enghraifft, os oes gan sefydliad 30 o gynghorwyr a'u bod eu ffeiliau i gyd yn sgorio 2 (hynny yw, 30 o ffeiliau x sgôr o 2 = 60 (allan o fwyafswm sgôr o 90) wedi'i gynrychioli fel canran - 67%)."

Adran 4: Adroddiad Adolygiad gan Gymheiriaid

Adroddiad sefydliad

Ar ôl cwblhau adolygiad cymheiriaid sefydliad, bydd yr adolygydd yn paratoi adroddiad sy'n crynhoi eu hasesiad o'r sefydliad yn seiliedig ar y sampl ffeiliau yn ei chyfanrwydd, yn cynnwys cyfanswm sgôr y sefydliad (gweler Atodiad B). Bydd yr adroddiad hefyd yn dangos nifer y ffeiliau nad ydynt yn cyrraedd y sgôr meincnod o 2 (cymwys). Bydd yr adroddiad yn dangos sgôr pob ffeil a aseswyd ac yn dynodi unrhyw enghreifftiau o arfer da o'r ffurflenni achos adolygiad gan gymheiriaid ond hefyd unrhyw feysydd lle - ym marn yr adolygydd - mae materion o gonsyrn a/neu le i wella. Bydd yn cynnwys y lefel briodol o esboniad i gyfiawnhau asesiad yr adolygydd o ansawdd gwaith y sefydliad.

Yn ogystal â'r adroddiad, bydd sefydliadau'n derbyn copiâu o bob un o'r ffurflenni adolygu achos er mwyn rhoi adborth i gynghorwyr unigol a'u datblygiad. Lle'n briodol, bydd y cynllun gweithredu a gaiff ei lunio rhwng yr adolygydd a'r sefydliad yn cynnwys argymhellion yn cyfeirio at gynghorwyr unigol.

Caiff adroddiad yr adolygiad gan gymheiriaid ei rannu i'r adrannau dilynol:

Trosolwg a sgôr	<p>Cadarnhad o nifer y cynghorwyr a gynhwysir o fewn yr adolygiad, nifer y ffeiliau gwaith achos a/neu ffeiliau cyngor yn unig a gafodd adolygiad gan gymheiriaid a'r amser a gymerwyd i gynnal yr adolygiad (gyda dyddiadau).</p> <p>Caiff unrhyw faterion gyda'r ffeiliau eu cofnodi yma, megis nad oes nifer ddigonol o ffeiliau i wneud sampl llawn neu'r angen i wneud mwy o ddetholiadau ar hap er mwyn gwneud y sampl llawn. Os na ellir adolygu unrhyw ffeil o'r sampl ar hap gwreiddiol, yna nodir hyn yn yr adran yma.</p>
Canfyddiadau cadarnhaol	<p>Cofnodir pob enghraifft o arfer da neu waith da a nodwyd yn y broses adolygiad gan gymheiriaid. Bydd yr adolygydd hefyd yn esbonio pam yr amlygwyd y materion neilltuol hyn.</p>
Prif feysydd o gonsyrn	<p>Mae'n debyg mai'r rhain fydd y prif faterion sy'n arwain yr adolygydd i roi sgôr o '0' neu '1' i ffeil ac a arweiniodd at niwed gwirioneddol neu bosibl i sefyllfa'r cleient. Dylai'r adolygiad nodi eu canfyddiadau a chyfeirio at y ffeil(iau) dan sylw. Dylai'r sefydliad fedru deall pam fod adolygydd yn ystyried maes neilltuol nid yn unig o gonsyrn ond o gonsyrn sylweddol. Bydd angen i'r sefydliad weithredu mesurau cywiro ac felly dylai'r adolygydd hefyd nodi beth ddylai fod wedi ei wneud yn eu barn nhw.</p>
Meysydd i'w datblygu	<p>Mae ffeil gyda sgôr o '2' neu '3' yn annhebyg o fod ag unrhyw feysydd sylweddol o gonsyrn, ond os oes unrhyw faterion eraill gyda'r ffeiliau, yna dylid eu cofnodi yma a chyfeirio at y ffeil(iau) dan sylw.</p>
Sylwadau pellach	<p>Mae'r adran yma er mwyn i'r adolygydd godi unrhyw faterion eraill. Mae'r rhain yn faterion nad ydynt o gonsyrn ond y cred yr adolygydd serch hynny y dylid dod â nhw i sylw'r sefydliad, er enghraifft arbedion gweinyddol posibl. Dylai'r rhain gael eu mynegi mewn ffordd adeiladol gydag enghreifftiau o arfer da.</p>
Meysydd a awgrymir ar gyfer eu gwella/cynllun gweithredu	<p>Mae'r adran yma er mwyn dynodi lle mae angen i sefydliad gymryd camau gweithredu i gywiro i wella ansawdd ei waith cynghori er mwyn sicrhau sgôr uwch yn yr adolygiad gan gymheiriaid ac i awgrymu sut y gellid gwneud hyn. Bwriedir trin meysydd o gonsyrn yn hytrach na meysydd i'w datblygu.</p>

Adran 5: Yn dilyn yr Adolygiad gan Gymheiriaid

Trafodaeth ar yr adolygiad a chynllunio

Cysylltir â sefydliadau i drefnu cyfarfod dilynol gyda'u hadolygydd cymheiriaid i fynd â cham datblygu'r broses ymlaen. Cynhelir y cyfarfod o bell o fewn 14 diwrnod o dderbyn yr adroddiad drwy'r dull mwyaf cyfleus ee. ffôn, skype ac ati.

Bydd y drafodaeth yn canolbwyntio ar:

1. Adolygiad o bob adran o'r adroddiad;
2. Datblygu a chytuno ar unrhyw gamau gweithredu priodol ac amserlenni;
3. Unrhyw ymholiadau'n ymwneud â sgorio, yn cynnwys cyfle i gyfeirio'r adolygydd at unrhyw wybodaeth a gyflwynwyd a all ysgogi adolygiad o sgorio.

Gall yr adolygydd cymheiriaid ddiwygio unrhyw un o'r adroddiadau a thrafod camau gweithredu amgen yng ngoleuni'r drafodaeth. Anfonir copi o unrhyw adroddiad diwygiedig at y sefydliad yn dilyn y cyfarfod.

Bydd unrhyw gamau gweithredu cywiro brys angen gweithredu o fewn 28 diwrnod calendr, gyda'r holl gamau gweithredu eraill i ddigwydd o fewn 90 diwrnod calendr. Caiff sefydliadau arweiniad gan Weinyddydd y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid o'r broses ar gyfer rhoi adroddiad ar bob cam gweithredu.

Proses datrys anghydfod

Cydnabyddir y gall fod sefyllfaoedd lle na all y trafodaethau ar yr adolygiad a'r cynllunio symud ymlaen oherwydd anghytundeb ar sgôr neu asesiad un neu fwy o ffeiliau, neu unrhyw gamau gweithredu a gynigir.

Pe byddai hyn yn digwydd, gall sefydliadau gysylltu â Gweinyddydd y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriad i ofyn am ail farn ar y mater y mae anghydfod arno. Bydd y Gweinyddydd wedyn yn casglu'r holl wybodaeth berthnasol ac yn sicrhau barn ail adolygydd cymheiriaid. Bernir fod yr ail farn yn derfynol.

Caiff canfyddiadau unrhyw ail farn eu rhannu gyda'r sefydliad a gafodd yr adolygiad a'r adolygydd cymheiriaid gwreiddiol. Wedyn trefnir ail gyfarfod o bell i orffen yr adolygiad, gan roi ystyriaeth i ganfyddiadau'r ail adolygydd cymheiriaid i gytuno a chwblhau camau gweithredu.

Adroddiadau

Bydd y Gwasanaeth Cyngtori Ariannol yn cadw cofnodion o bob asesiad a gynhaliwyd ar hyd y Cynllun. Caiff y rhain eu cadw'n gyfrinachol - ni fydd unrhyw adroddiad adolygiad cymheiriaid yn hygyrch i'r cyhoedd.

Dull gweithredu seiliedig ar risg

Caiff sefydliadau eu hadolygu dan y Cynllun ar gylch asesu tair blynedd ac eithrio lle dynodwyd sefydliad ar gyfer adolygiad dilynol gan gymheiriaid mewn 12 mis.

Bydd adolygiad gan gymheiriaid ar gyfer y sefydliad yn dilyn mewn un o'r sefyllfaoedd canlynol:

- Os yw sefydliad yn sgorio 28 neu 63% neu'n is;
- Os yw sefydliad yn sgorio 0 mewn unrhyw un o'i ffeiliau o fewn y sampl a asesir;
- Os yw sefydliad yn sgorio 1 mewn 20% neu fwy o'i ffeiliau o fewn y sampl a asesir.

Bydd adroddiadau blynyddol yn cynnwys dau ddull posib. Pan fo asesiad o'r sefydliad wedi dod i gasgliadau sy'n gysylltiedig â phrosesau yn bennaf, byddant yn profi asesiad 'ysgafn' ymhen 12 mis. Pan fo'r casgliadau yn cyfeirio at ansawdd y cyngor yn bennaf, bydd asesiad safonol yn cael ei gyflawni ymhen 12 mis.

Adran 6: Dysgu a datblygu

Dadansoddiad o ddysgu adolygiad gan gymheiriaid

Bydd Gweinyddydd y Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid yn cynnal dadansoddiad ac yn rhoi adroddiad adolygiad gan gymheiriaid dienw yn amlygu tueddiadau, heriau cyffredin ac arfer da ddwywaith y flwyddyn. Cyhoeddir copi o'r adroddiad hwn a bydd yn dynodi unrhyw bwyntiau penodol am ddaearyddiaeth.


Caiff y Cynllun yn ei gyfanrwydd ei werthuso yn dilyn 12 mis o'i weithrediad a bydd yn cynnwys mewnbwn gan sefydliadau darparu, cynghorwyr ac adolygwyr cymheiriaid. Yn dilyn hynny, caiff y Cynllun ei adolygu fel sy'n briodol i wella ei effeithlonrwydd ac effeitholdeb.

Gweithgaredd datblygu

Bydd y Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn gweithredu ystod o gynlluniau ar sail canlyniadau a chanfyddiadau dechreuol o'r Cynllun. Nod y cynlluniau hyn fydd rhannu arfer gorau, hybu gwelliannau a goresgyn heriau cyffredin sy'n wynebu darparwyr cyngor.

Adran 7: Cylch Adolygiad gan Gymheiriaid

Gweithredu o Ebrill 2015



Atodiadau

Atodiad A: Meini prawf adolygiad achos - gwaith achos yn unig

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
1. Rhagarweiniol		
1.1 P'un yw'r cleient yn gleient newydd neu gleient sy'n dychwelyd (gorfodol)		
1.2 Rheswm am y cyswllt (gorfodol)		
1.3 Lle'n newydd, cleient wedi cofrestru gyda'r gwasanaeth fel sy'n briodol; lle'n dychwelyd cynnal gwiriadau ar bwy yw'r cleient a diogelu data (gorfodol)		
1.4 Esbonio'r broses o roi awdurdod i weithredu ar ran y cleient a chwblhau ffurflen awdurdod (fel sy'n berthnasol)		
Dim ond lle mae'r cleient yn newydd (os na fu unrhyw newidiadau ers y cyswllt blaenorol):		
1.5 Cynnal Asesiad Dechreuol Cyffredin (lle gweithredwyd)		
1.6 Casglu manylion personol a chefnidir yn cynnwys statws mewnfudo, daliadaeth tai, statws cyflogaeth, dibynyddion a rhai heb fod yn ddibynyddion, materion iechyd neu anabledd a thystiolaeth a gafwyd fel bo angen yn unol â pholisïau a gweithdrefnau mewnol ee. pŵer atwrnai (gorfodol)		
1.7 Gwirio am wrthdaro diddordeb posibl (gorfodol)		
1.8 Cynnal monitro cydraddoldeb (gorfodol)		
1.9 Esbonio trefniadau cyfrinachedd a diogelu data a llenwi unrhyw ffurflen(ni) angenrheidiol (gorfodol)		
1.10 Lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar y cleient ee. anghenion hygyrchedd a chyfathrebu, sefydlu iechyd (gorfodol)		
1.11 Esbonio ffiniau a rôl y sefydliad yn cynnwys sut y gall helpu'r cleient (gorfodol)		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
2 Ymchwilio'r broblem ddyled		
2.1 Ymchwilio'n llawn holl agweddau perthnasol yr achos, casglu gwybodaeth allweddol berthnasol (cefndir, ffeithiau allweddol, cam(au) gweithredu a gymerwyd hyd yma gan y cleient a pharti arall) ac egluro materion		
2.2 Dynodi'r mater pwysig		
2.3 Dynodi unrhyw faterion eilaidd y cyngorwyd arnynt e.e. materion a ddynodwyd gan y cyngorydd na wnaeth y cleient ofyn am gyngor amdanynt		
2.4 Dynodi'n gywir unrhyw ffurflenni llys cyffredin y cyfeirir atynt		
2.5 Lle mae gan y cleient ddyledion personol a busnes, y rhain yn cael eu dynodi'n gywir a'u gwahaniaethu		
2.6 Lle mae'r cleient yn gleient sy'n dychwelyd, adolygu cynnydd/ datblygiadau ers y cyswllt diwethaf		
2.7 Sefydlu rheswm/rhesymau am anawsterau ariannol/p'un ai dros dro		
2.8 Dynodi'r hyn mae'r cleient eisiau ei gyflawni		
2.9 Dynodi dyddiadau allweddol a therfynau amser		
2.10 Ymchwilio capasiti, gallu ac unrhyw faterion iechyd, anabled, bregusrwydd neu broblemau iechyd meddwl sydd gan y cleient		
2.11.1 Unrhyw newidiadau hysbys neu a ragwelir i amgylchiadau'r cleient a amlygwyd		
2.11.2 Unrhyw faterion neu broblemau a amlygwyd i'r dyfodol e.e. unrhyw rwystrau i weithredu hawliau neu fodloni ymrwymadau a chyfrifoldebau		
2.12 Lle na roddwyd digon o wybodaeth i alluogi diagnosis y broblem, dynodi'r wybodaeth bellach sydd ei hangen a chynghori/ cynorthwyo'r cleient i gael hynny		
3 Delio gyda materion brys		
3.1 Ymchwilio a dynodi os oedd y cleient yn wynebu argyfwng		
3.2 Dynodi'r angen am weithredu ar frys, yn cynnwys i gyrraedd terfynau amser		
3.3 Cymryd camau gweithredu priodol (yn cynnwys cymorth i lenwi ffurflenni llys, dangos y ffordd, atgyfeirio)		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
4 Gwirio atebolrwydd		
4.1 Dynodi dyledion anorfodadwy posibl, amddiffyniadau eraill posibl neu heriau eraill posibl i weithredu gan gredydwyr ar gyfer y cyfan neu ran o ddyled		
4.2 Dynodi'n gywir unrhyw atebion posibl yn gysylltiedig gyda phroblemau neilltuol		
4.3 Lle nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael, dynodi'r wybodaeth bellach sydd ei hangen		
4.4 Gwneud defnydd priodol o gyngor ail haen a/neu gynghorwyr arbenigol/ffynonellau cyngor arall		
5 Cynyddu incwm i'r eithaf (yn cynnwys gallu ariannol)		
5.1 Gwirio incwm a gwariant y cleient yn briodol		
5.2 Gwirio budd-daliadau/credyd treth/cod treth		
5.3 Dynodi taliadau elusennol, grantiau a thaliadau unigol eraill posibl		
5.4 Dynodi unrhyw asedau gwireddadwy		
5.5.1 Meysydd o wariant neilltuol o uchel neu isel a diffyg unrhyw archwilio amlwg o eitemau o wariant hanfodol		
5.5.2 Gwneud lwfans realistig ar gyfer unrhyw wariant eithriadol neu wariant amrywiol nad yw yn y gyllideb		
5.6 Rhoi cyngor priodol yng nghyswllt agor cyfrif banc newydd		
5.7 Dynodi ymyriadau gallu ariannol priodol, yn neilltuol yn ymwneud â chyllidebu, llif arian, siopa o gwmpas, gwefannau cymharu, gwariant hanfodol a heb fod yn hanfodol a dulliau o reoli arian		
6 Datganiad ariannol		
6.1 Cael gwybodaeth berthnasol am sefyllfa ariannol cleient er mwyn llenwi datganiad Incwm/Gwariant		
6.2 Incwm amrywiol cyfartalog mewn modd realistig a rhesymol		
6.3 Esbonio unrhyw wariant cynhennus neu eithriadol		
6.4 Y defnydd priodol o ffigurau gwariant safonol neu ganllawiau i sicrhau bod y Gyfriflen Ariannol yn adlewyrchu amgylchiadau'r cleient unigol yn gywir		
6.5 Lle defnyddir y Datganiad Ariannol Cyffredin neu gyfwerth, llunio'r datganiad ariannol yn unol â'r canllawiau cyffredol		
6.6 Lle na ddefnyddir y Datganiad Ariannol Cyffredin neu gyfwerth, fformat yn unffurf a gyda strwythur rhesymegol er mwyn annog ymatebion cyson gan fenthycwyr a gostwng ymholiadau ac oedi.		
(Nodyn: Dylai adroddiad adolygu achos yr adolygydd cymheiriaid argymhell fod y sefydliad yn defnyddio offeryn Incwm a Gwariant Safonol)		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
7 Ymchwilio opsiynau		
7.1 Cynnal ymchwil ar faterion perthnasol, defnyddio ffynonellau priodol a bod hynny'n ddigon cyflawn.		
7.2 Gwerth a thriniaeth o unrhyw asedau cleient a ystyrir, os ydynt yn berthnasol e.e. opsiynau ansolfedd		
7.3 Pan mae incwm y cleient yn amrywiol e.e. gwaith tymhorol, ystyried effaith hyn ar unrhyw ddatrysiad dyled		
7.4 Cyngor yn:		
i. iawn ac yn gyfreithiol gywir		
ii. cynhwysfawr		
iii. cael ei roi mewn pryd/ar yr adeg gywir		
iv. priodol ar gyfer sefyllfa unigol y cleient a heb ei gyfyngu i gyngor cyffredinol ynghylch dyled heb unrhyw, neu heb ddigon, o gyfeiriad at amgylchiadau neilltuol y cleient		
7.5 Esbonio hawliau a chyfrifoldebau/ goblygiadau'r cleient yng nghyswllt y problemau a godwyd a dynodi'r opsiynau		
7.6 Opsiynau perthnasol yn cael eu hystyried a'u hegluro'n glir, yn deg ac mewn modd nad yw'n camarwain e.e. yn anghyflawn neu heb fod yn ddiuedd, er mwyn i'r cleient fedru gwneud penderfyniad deallus ar gyfer pob opsiwn:		
i. manteision/anfanteision		
ii. canlyniadau/goblygiadau gwirioneddol neu bosibl, yn cynnwys effaith rwymedi dyled ar ffeiliau cyfeirnod credyd a bancio		
iii. unrhyw feini prawf cymhwyster		
iv. dyledion o fewn yr opsiwn hwnnw		
v. unrhyw gostau cysylltiedig		
vi. tebygrwydd o gael eu derbyn		
vii. unrhyw risgiau'n gysylltiedig gyda'r opsiwn, hwnnw, yn cynnwys gorchmynion costau niweidiol yng nghyswllt trafodion llys		
7.7 Rhoi gwybodaeth briodol a digonol i'r cleient:		
i. rhoi trosolwg o'r broses hawlio llys sirol, lle'n briodol		
ii. esbonio gwybodaeth yn glir ac yn gywir mewn ffordd syml		
iii. rhoi gwybodaeth ysgrifenedig/adnoddau priodol ee. cadarnhau llythyr cyngor yn crynhoi'r broblem/problemau; trafod mater(ion), cyngor a champau nesaf wedi'i ysgrifennu mewn ieithwedd y gall y cleient ei deall, gan osgoi jargon a thermau technegol (os na roddir esboniad ohonynt)		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
8 Credydwy'r blaenoriaeth		
8.1 Dynodi dyled yn gywir fel dyled blaenoriaeth, gan roi ystyriaeth briodol i amgylchiadau personol cleient wrth asesu pa nwyddau a gwasanaethau sy'n hanfodol		
8.2 Sefydlu dyledion o flaenoriaeth e.e. unrhyw weithred orfodi		
8.3 Rhoi cyngor priodol i lefel blaenoriaeth y broblem		
8.4 Defnyddio datganiad ariannol yn briodol i wneud cynigion am ad-dalu		
8.5 Cynnig ad-dalu yn realistig a chynaliadwy gyda darpariaeth ddigonol ar gyfer gwariant blaenoriaeth cyfredol		
8.6 Defnyddio unrhyw heriau posibl yn briodol i gryfhau sefyllfa negodi		
8.7 Unrhyw gyfathrebu gyda chredydwy'r yn dryloyw ac nid yn effeithio'n niweidiol ar fuddiannau'r cleient		
9 Credydwy'r eraill		
9.1 Unrhyw incwm sydd ar gael ar gyfer talu credydwy'r heb fod yn flaenoriaeth yn cael ei asesu'n gywir, gan alluogi cadw unrhyw gynigion		
9.2.1 Cynnig ad-dalu yn realistig a chynaliadwy ac yn rhoi ystyriaeth i daliadau i gredydwy'r blaenoriaeth ac, os na chyfiawnheir fel arall, yn cael ei wneud ar sail pro-rata		
9.2.2 Dyddiad(au) a ragwelir ar gyfer ad-dalu dyled(ion) o flaenoriaeth yn cael eu hystyried wrth asesu incwm posib sydd ar gael yn y dyfodol		
9.3 Dulliau talu a dyddiadau dechrau hefyd yn cael eu nodi		
9.4 Gofyn i gredydwy'r gytuno i rewi/gostwng llog/taliadau, fel sy'n briodol		
9.5 Defnyddio unrhyw heriau posibl yn briodol i gyfnerthu sefyllfa negodi		
9.6 Unrhyw gyfathrebu gyda chredydwy'r yn dryloyw ac nid yn effeithio'n niweidiol ar ddiddordebau'r cleient		
9.7 Lle'n briodol, dweud wrth y cleient am adael i'r cynghorydd wybod am unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
10 Cynllun gweithredu (yn cynnwys dangos y ffordd, atgyfeirio a hunangymorth)		
10.1 Dynodi strategaeth(au) priodol ar gyfer delio gyda'r dyledion amrywiol a gyflwynir gan y cleient		
10.2 Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau priodol y cynghorydd a'r cleient		
10.3 Rhoi gwybodaeth ddigonol ar y camau nesaf, pwy sy'n gyfrifol am eu cymryd a phryd ac unrhyw waith dilynol		
10.4 Esbonio gwahanol dulliau talu dyledion		
10.5 Ansawdd a phriodoldeb unrhyw help a roddir i'r cleient e.e. gwaith achos, negodi, cynrychiolaeth		
10.6 Defnyddio dulliau cyfathrebu priodol gyda chredydwyr		
10.7 Unrhyw gyfathrebu gyda chredydwyr yn dryloyw a heb effeithio'n niweidiol ar ddiddordebau'r cleient		
10.8 Unrhyw lythyrau safonol a ddefnyddir yn cael eu golygu fel bo angen i sicrhau fod eu cynnwys yn berthnasol i'r cleient		
10.9 Lle na wneir unrhyw waith, p'un ai oedd hyn yn briodol (gan roi ystyriaeth i unrhyw gyfyngiadau ar, a rôl y gwasanaeth cynghori)		
10.10 Lle rhoddir cyngor ar hunangymorth, esboniad wedi'i roi o'r rôl a'r camau gweithredu, y camau gweithredu yn glir ac yn rhwydd i'r cleient eu dilyn, sut i weithredu ac erbyn pryd		
10.11 Lle na all y cynghorydd/asiantaeth gynorthwyo mewn argyfwng a/ neu roi cyngor priodol neu ddatrysiad dyled priodol, y cleient wedi ei atgyfeirio'n briodol, yn cynnwys lle mae'r cleient angen cyngor ar faterion heb fod yn ymwneud â dyled		
10.12 Lle mae'r cleient yn byw mewn cenedl wahanol o fewn y Deyrnas Unedig (h.y. Lloegr, Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon), dangos y ffordd/atgyfeirio'r cleient i gael gwybodaeth ar yr ystod o ddatrysiadau dyled yn y genedl honno		
10.13 Rhoi gwybodaeth dangos y ffordd mewn modd priodol		
10.14 Darparu cymorth gallu ariannol priodol		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
<p>11. Cofnodi achosion a rheoli achosion</p> <p>11.1 Y cofnod achos yn dangos:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. rhoi gwybodaeth i'r cleient am natur y gwasanaeth a'r cymorth sydd ar gael ii. ymchwilio ac egluro'r broblem bwysig ac unrhyw broblem(au) eraill a sefyllfa y cleient iii. cafwyd gwybodaeth allweddol arall berthnasol, yn cynnwys y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma a, lle na roddwyd gwybodaeth ddigonol, dynodi hynny iv. dynodi unrhyw derfynau amser a dyddiadau allweddol perthnasol v. cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth digonol vi. cael dogfennau perthnasol vii. ymchwilio ac esbonio opsiynau'r cleient, yn cynnwys y cyngor a roddwyd i'r cleient viii. lle cynghorwyd cleient i beidio gwneud taliad neu wneud taliad is i'w credydwr/credydwr, yn cynnwys canslo unrhyw ddull(iau) talu, rhybuddio'r cleient am ganlyniadau posibl ix. crynodeb o gamau gweithredu i'w cymryd, gan bwy, camau nesaf ac unrhyw waith dilynol x. cynnydd yn rhwydd ei ddilyn xi. hysbysu'r cleient ac anfon copi o ohebiaeth fel sy'n briodol xii. defnyddio system dyddiadur xiii. canlyniad(au) ymchwiliad xiv. lle'n briodol, dweud wrth y cleient i hysbysu'r cynghorydd am unrhyw newid perthnasol mewn amgylchiadau xv. lle'n briodol, dynodi angen y cleient am gyngor/cymorth mwy medrus, e.e. ymchwiliad un ai tu hwnt i gwmpas yr asiantaeth, cynghorydd heb wybodaeth a/neu brofiad digonol i gynghori am neu gynghorydd yn methu cynghori, megis am resymau ymarferol, moesegol neu gyfreithiol <p>11.2 Rhoi cadarnhad ysgrifenedig e.e. drwy e-bost o negodiadau a wneir ar lafar</p> <p>11.3 Gwneud copiâu o unrhyw ddogfennau perthnasol a'u cadw gyda chofnod yr achos</p> <p>11.4 Unrhyw ddangos y ffordd/atgyfeirio yn briodol ac effeithlon</p> <p>11.5 Dim colli unrhyw gyfle priodol ar gyfer dangos y ffordd/atgyfeirio</p> <p>11.6 Hysbysu'r cleient am unrhyw gostau/help gyda chostau fel rhan o unrhyw ddangos y ffordd/atgyfeirio</p> <p>11.7 Hysbysu cleient lle na fydd yr asiantaeth yn cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach e.e. cau'r achos</p>		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Cynllun adolygiad gan gymheiriaid - Ffurflen adolygiad achos (Gwaith achos yn unig)*		
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd
<p>12 Effaith ar y cleient</p> <p>12.1 Canlyniadau achos cadarnhaol</p> <p>12.2 Canlyniadau achos negyddol</p> <p>12.3 Disgwyl/heb wybod/hysbysu canlyniadau</p> <p>12.4 Unrhyw waith yn effeithlon wrth symud cleient tuag at yr hyn yr oeddent ei eisiau/angen yn rhesymol</p> <p>12.5 Effaith materion a gollwyd</p>	<p>Ni chaiff y categori hwn ei asesu ynddo'i hun ond rhoddir ystyriaeth iddo yn Cam 2 (asesiad cyffredinol o'r ffeil)</p>	
Sylwadau'r adolygydd:		
Pwyntiau arfer da:		

* Mae meini prawf adolygiad cyngor yn unig yn y ddogfen ategol Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid: Gwybodaeth i Sefydliadau sy'n Cymryd Rhan y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol: Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid Ttempld Cofnodi Adolygiad Achos (Gwaith achos yn unig)		
Enw'r Adolygydd:		
Dyddiad yr Adolygiad:		
Enw'r Asiantaeth:		
Enw'r Cyngorydd:		
Dyddiad agor y ffeil:		Dyddiad cau'r ffeil:
	Cyflawni, Heb Gyflawni Dim yn berthnasol	Sylwadau'r Adolygydd*
1. Rhagarweiniol		
2. Ymchwilio'r broblem ynghylch dyled		
3. Ymdrin â materion brys		
4. Gwirio atebolrwydd		
5. Cynyddu incwm i'r eithaf (yn cynnwys gallu ariannol)		
6. Datganiad ariannol		
7. Ymchwilio opsiynau		
8. Credydwyr blaenoriaeth		
9. Credydwyr eraill		
10. Cynllun gweithredu (yn cynnwys dangos y ffordd, atgyfeirio a hunangymorth)		
11. Cofnodi'r achos a rheoli'r achos		
12. Effaith ar y cleient		
Sylwadau cyffredinol yr adolygydd:		
Pwyntiau arfer da:		
Sgôr ffeil:		

Atodiad B: Tabled adroddiad adolygiad achos - gwaith achos yn unig

Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol: Cynllun Adolygiad gan Gymheiriaid Tabled adroddiad adolygiad achos	
Enw'r Sefydliad:	
Enw'r Adolygydd:	
Dyddiad yr Adolygiad:	
Dyddiad yr Adroddiad:	
1. Trosolwg/Sgôr	
2. Canfyddiadau Cadarnhaol	
3. Prif Feysydd o Gonsyrn	
4. Meysydd i'w Datblygu	
5. Sylwadau Pellach	
6. Awgrym Meysydd i'w Gwella/Cynllun Gweithredu	

Atodiad C: Manyleb person adolygydd cymheiriad

Mae'r Gwasanaeth Cyngori Ariannol yn rhagweld y detholir adolygwyr cymheiriad ar gyfer y cynllun o blith ystod o sefydliadau ar draws y sector ac maent yn debygol o gynnwys cyfuniad o gynghorwyr rhan-amser, llawn-amser a/neu ail-haen. Disgwylir i bob ymgeisydd am rôl adolygydd cymheiriad i drafod eu cais gyda'u cyflogwr, os yn briodol, a chytuno ar eu hargaeledd am y rôl os yn llwyddiannus.

Caiff gofynion sylfaenol a dymunol adolygwyr cymheiriad posibl eu nodi islaw. Defnyddir yr wybodaeth yn y ffurflen gais i asesu os ydynt yn cyflawni'r gofynion yn ystod y broses o lunio'r rhestr fer.

Gofynnir i ymgeiswyr ar y rhestr fer i baratoi adroddiad fel rhan o ymarferiad ysgrifenedig mewn cyfweiliad er mwyn dangos eu gwybodaeth arbenigol. Caiff adroddiad yr adolygydd cymheiriad ei ystyried fel rhan o'r broses ddethol a'i ddefnyddio i hyfforddi ymgeiswyr llwyddiannus.

Gofynion sylfaenol:

- Tair blynedd o brofiad llawn-amser (3,300 awr) neu brofiad rhan-amser cyfwerth o gyflwyno cyngor ynghylch dyled
- Mae'n rhaid i o leiaf 50% o'r profiad fod yn ymwneud â gwaith achos dyledion
- Rhaid bod â llwyth achosion cyfredol ar gyngor dyled neu brofiad cyfredol o gyflwyno cyngor ail haen
- Rhaid bod wedi delio gyda'r ystod lawn o fathau dyled
- Profiad o gynnal adolygiadau ar ffeiliau a rhoi adborth (mewn unrhyw faes o gyngor)
- Ymwybyddiaeth o'r gwahanol ddulliau o gyngor ynghylch dyled
- Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus cyfredol
- Meddwl agored

Gofynion dymunol:

- Profiad blaenorol o gynnal adolygiad gan gymheiriad
- Profiad o gynrychioli cleientiaid
- Profiad o oruchwylio cynghorwyr eraill
- Cymhwyster gydag achrediad y Gwasanaeth Cyngori Ariannol ar lefel Arbenigol neu uwch

Cyfweiliad swydd

Bydd angen i ymgeiswyr sy'n pasio'r cam cyfweiliad i roi sampl o'u ffeiliau achos gydag enwau'r cleientiaid wedi eu dileu arnynt ar gyfer adolygiad gan gymheiriad. Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus i'r cynllun adolygiad gan gymheiriad i ddilyn hyfforddiant a chymryd rhan mewn ymarferion safoni ar hyd y cynllun.

Mentora

Bydd yn hanfodol i'r gronfa adolygwyr cymheiriad a recriwtiwyd fod ag unigolion a all weithredu fel mentoriaid i adolygwyr cymheiriad eraill. Bydd felly angen recriwtio rhai unigolion sydd â'r ystod lawn o brofiad a'r holl ofynion dymunol i weithredu fel mentoriaid.



Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Holborn Centre
120 Holborn
Llundain EC1N 2TD
© Gwasanaeth Cynghori Ariannol
Awst 2016

moneyadviceservice.org.uk